Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

## 1 Cefndir

Yn dilyn marwolaeth plentyn 15 oed (Plentyn D), comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant estynedig. Ganed Plentyn D ym mis Ionawr 2006 ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd. Treuliodd 19 wythnos mewn uned newyddenedigol a chafodd ddiagnosis o barlys yr ymennydd. Daeth Plentyn D yn hysbys i Dîm Anabledd y Gwasanaethau Plant am y tro cyntaf pan oedd yn 1 oed ar gyfer cymorth Therapydd Galwedigaethol oherwydd ei anghenion iechyd cymhleth.

Yn 2008, cafodd Plentyn D ei leoli gyda'i nain a thaid ar ochr ei fam fel Plentyn sy'n Derbyn Gofal oherwydd bod ei fam yn teimlo na allai ddiwallu ei anghenion; dilynwyd hyn gyda Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig yn cael ei roi iddynt rai misoedd yn ddiweddarach. Roedd mam a thad plentyn D wedi symud i ardal wahanol ac roedd Plentyn D yn parhau i fyw gyda'i nain a'i daid ar ochr ei fam. Daeth pryderon ynghylch cyflwr y cartref i'r amlwg gyntaf yn 2015.

## 2 Cyd-destun

Dychwelodd mam Plentyn D i gartref y teulu yn 2016 ynghyd â'i dau blentyn o berthynas wahanol. Tra'n byw mewn ardal arall, roedd y Gwasanaethau Plant wedi bod yn ymwneud â Phlentyn D oherwydd pryderon ynghylch esgeulustod. Roedd amodau'r cartref yn amrywio o 2015 hyd at farwolaeth Plentyn D. Parhaodd ei iechyd i gael ei adolygu ond ni nodwyd unrhyw broblemau. Yn 2021 nodwyd pryderon ynghylch rheoli meddyginiaeth Plentyn D ac yn ddiweddarach y flwyddyn honno rhoddwyd ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar gyfer Esgeulustod. Drwy gydol yr amser y bu'r Gwasanaethau Plant yn ymwneud â phlentyn D a'i deulu, roeddent yn rhan o'r Tîm Anableddau Plant o fewn Strwythur yr Awdurdod Lleol. Cyn marwolaeth Plentyn D, aeth ei Nain a'i Daid ar wyliau, rhoddwyd mesurau diogelu ychwanegol ar waith oherwydd bod y fam â chyfrifoldeb gofalu am Blentyn D. Yn ystod y cyfnod hwn, canfuwyd ei fod yn dioddef o rwymedd a rhoddwyd presgripsiwn gan ei Feddyg Teulu; fodd bynnag, ni chasglwyd y presgripsiwn o'r fferyllfa. Nodwyd amodau cartref gwael gan barafeddygon a'r heddlu a oedd yn bresennol ar adeg marwolaeth Plentyn D.




## 3 Thema:

Mae **deall profiadau bywyd plentyn** yn hanfodol ar gyfer diogelu effeithiol. Roedd plentyn D yn ddi-eiriau yn bennaf oherwydd ei anghenion cymhleth. Ni ddylai cymhlethdodau gyda lleferydd ac iaith fod yn rhwystr i ddatblygu dealltwriaeth o brofiad bywyd plentyn. Mae'r Tîm Anabledd Plant o fewn yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn rhan o'r Strwythur Gwasanaethau Oedolion. Bodlonwyd anghenion corfforol yn ymwneud ag anabledd plentyn D gyda mewnbwn proffesiynol gan wasanaethau megis Therapi Galwedigaethol. Fodd bynnag, mae diffyg ffocws ar brofiadau bywyd plentyn D fel plentyn ag anableddau yn byw mewn cartref lle bu esgeulustod cronnol dros nifer o flynyddoedd. **Amodau Cartref Gwael Rheolaidd ac Esgeulustod:**. Gall effaith esgeulustod fod yn fwy difrifol i rai plant, gan gynnwys y rhai ag anableddau megis Plentyn D. Rhaid i weithwyr proffesiynol ystyried effaith gronnol esgeulustod, yn enwedig pan fo gan blant anghenion cymhleth.

## 4 Thema:

**Asesiadau Risg ar gyfer Dealltwriaeth Gofalwyr o Anghenion Plentyn D**: Roedd Plentyn D yn byw gyda'i nain a'i daid o dan ofynion Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig; fodd bynnag, roedd adegau pan oedd ei fam yn gyfrifol am ei ofal, er enghraifft pan oedd ei nain a'i daid ar wyliau. Roedd gan blentyn D anghenion gofal cymhleth ac nid yw'n glir i ba raddau yr oedd gan y fam y gallu i ddiwallu'r anghenion hyn tra'n gofalu hefyd am siblingiaid Plentyn D, a beth oedd dealltwriaeth y nain a'r taid o hyn. **Offer arbenigol**: Roedd angen amrywiaeth o offer arbenigol ar blentyn D oherwydd ei anghenion iechyd; newidiodd y rhain dros amser wrth i Blentyn D dyfu ac mae'n rhaid ystyried hefyd, wrth i Blentyn D dyfu ac i'w nain a'i daid heneiddio, y gallai fod wedi dod yn fwy heriol iddynt ddiwallu ei anghenion. Darparwyd offer arbenigol i Blentyn D ond ni ddefnyddiwyd rhai eitemau oherwydd eu bod yn achosi trallod i Blentyn D. Bu oedi sylweddol wrth gael gafael ar eitemau eraill oherwydd pandemig Covid 19. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd asesu parhaus.

## 5 Argymhellion:

**Argymhelliad 1:** Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu canllawiau ymarfer ar brofiadau bywyd plant ag anableddau i gynorthwyo dealltwriaeth ymarferwyr, i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed yn weithredol ac i gefnogi camau gweithredu effeithiol i ddiogelu plant a phobl ifanc. **Argymhelliad 2**: Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried adolygu'r cyfrifoldeb strategol am y Tîm Plant ag Anableddau o fewn cyfadran yr awdurdod. Gallai'r ystyriaeth hon gynnwys sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth. **Argymhelliad 3:** Y Bwrdd Diogelu i archwilio ac ystyried a ddylid rhannu gwybodaeth oddi wrth feddygon teulu gyda fferyllwyr ynghylch plant sy'n destun gweithdrefnau diogelu i fonitro a rhannu gwybodaeth fel y bo'n briodol. **Argymhelliad 4:** Y Bwrdd Diogelu i ystyried ychwanegu trothwy cyflwr cartrefi at y canllawiau esgeuluso rhanbarthol presennol. Dylid ystyried ffotograffau o amgylcheddau cartref er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol a theuluoedd i nodi a galluogi newid, fel y bo'n briodol. Gellid defnyddio'r rhain hefyd i drafod safonau derbyniol. Dylid ystyried dull aml-asiantaeth o ymdrin ag amgylchedd anniben ac ystyried

## 6 Argymhellion:

**Argymhelliad 4 parhad:** asiantaethau fel y gwasanaeth tân ar gyfer addysg ynghylch risg. **Argymhelliad 5:** Pan fo plentyn yn byw gyda rhiant/gofalwr nad yw bellach yn dal y prif gyfrifoldeb fel rhiant, dylai'r Gwasanaethau Plant gwblhau asesiadau risg i'r rhiant/gofalwr i brofi cymhwysedd yn ymwneud ag anghenion gofal y plentyn unigol. **Argymhelliad 6:** Dylai asesiadau risg gael eu cwblhau gan yr Awdurdod Lleol mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol eraill i gael tystiolaeth ac i alluogi codi lefel y rhybudd ynghylch gwasanaeth gwael gan gwmnïau allanol pan fo'r amser disgwyl am offer yn fwy na'r terfynau amser disgwyliedig. Dylid ystyried yr effaith ar y plentyn neu berson ifanc o fewn hyn. **Argymhelliad 7:** Dylid cynnal asesiadau rheolaidd o'r offer sydd ei angen ar unigolion a dylai'r Awdurdod Lleol ac asiantaethau partneriaeth fynd ag offer di-angen oddi yno. Dylai'r prosesau codi lefel rhybudd neu uwchgyfeirio fod yn glir i bob aelod o staff ar draws pob sector er mwyn gwella anghenion gofal y plentyn.

## 7 Ymarfer da

Roedd lleoliad addysgol plentyn D yn nodi ei fod mewn poen ac yn cwestiynu'r teulu ynghylch y rhesymau am hyn.

Roedd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod y gallai mam Plentyn D gael trafferth gyda'i ofal tra roedd ei nain a'i daid i ffwrdd a sicrhawyd bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith gan gynnwys cymorth ychwanegol gan deulu estynedig, sesiynau cynllun chwarae ysgol ychwanegol, ac ymweliadau cartref gan Weithiwr Cymdeithasol.

Yn ystod pandemig Covid 19, cynhaliodd yr ysgol gysylltiad rheolaidd â'r teulu a chynigiwyd leoliad hwb i plentyn D pan oedd ysgolion ar gau, a mynychodd y plentyn yr hwb.

Darparodd yr Awdurdod Lleol gefnogaeth gartref i alluogi'r nain a'r taid i gael mynediad at grwpiau craidd rhithwir yn ystod pandemig Covid 19